Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Hydref 2017

Ar 23 Hydref 2017, cafodd Bil Llywodraeth, Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 3 Hydref 2017, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 10 Hydref 2017, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 16 Chwefror 2018.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 4 Mai 2018, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.